# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 3

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

*Gofynion gweithdrefnol a gofynion eraill*

### 4 Gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd

(1) Rhaid i reoliadau ddarparu ar gyfer gweithdrefn (y "weithdrefn gonestrwydd") sydd i'w dilyn gan gorff GIG y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas ag ef.

(2) Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG, fel rhan o'r weithdrefn gonestrwydd—

(a) wrth ddod yn ymwybodol gyntaf fod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol, roi hysbysiad o hyn yn unol â'r rheoliadau i'r defnyddiwr gwasanaeth o dan sylw neu rywun sy'n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth;

(b) hysbysu person a grybwyllir ym mharagraff (a), yn unol â'r rheoliadau, am—

(i) pwy yw person sydd wedi ei enwebu gan y corff yn bwynt cyswllt ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r weithdrefn gonestrwydd;

(ii) unrhyw ymholiadau pellach a gynhelir gan y corff mewn cysylltiad â'r amgylchiadau y daeth y ddyletswydd gonestrwydd yn effeithiol odanynt.

(3) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth hefyd—

(a) i'r corff gynnig ymddiheuriad;

(b) mewn cysylltiad â darparu cymorth i ddefnyddiwr gwasanaeth y rhoddir hysbysiad iddo o dan is-adran (2)(a);

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 4. (See end of Document for details)*

(c) ynghylch cadw cofnodion.

(4) Caiff y rheoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â'r weithdrefn gonestrwydd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 7.3.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2023/259, **ergl. 2(1)(a)**

**I3** A. 4 mewn grym ar 1.4.2023 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 4.